
GOFOTA
CRATERI
NID YW'R GOFOD YN HOLLOL WAG, FELLY WEITHIAU MAE PETHAU'N TARO EU GILYDD, AC YN CREU CRATER
WIIIIIIIII !
O DIAR!
MAE GWRTHRYCHAU YNG NGHYSAWD YR HAUL YN TEITHIO YN GYFLYM IAWN
GER Y DDAEAR, MAE'R CYFLYMDER TUA 30 KM BOB EILIAD!
FELLY MAE GWRTHRYCHAU BYCHAIN YN CARIO LLAWER IAWN O EGNI CINETIG
PAN MAE UN GWRTHRYCH YN TARO UN ARALL, MAE'N RHYDDHAU MAINT ANFERTH O EGNI MEWN UN MAN...
FFRWYDRIAD!
CREADIGAETH CRATER
MAE MAINT A DYFNDER CRATER YN DIBYNNU AR FAINT Y DDAU BETH SY'N TARO EU GILYDD, EU DWYSEDD, EU CRYFDER, A'R CYFLYMDER RHWNG Y DDAU
MAE GWRTHRYCH YN GWIBIO AM Y WYNEB
MAE GAN Y BLANED HON ATMOSFFER, FELLY MAE'R GWRTHRYCH YN CAEL EI GYNHESU CYN CYRRAEDD Y WYNEB
MAE'N TARO'R WYNEB, YN TAFLU DEFNYDD ALLAN AR GYFLYMDER UCHEL. EJECTA YW ENW HWN.
MAE'R DEFNYDD SY'N CAEL EI DAFLU ALLAN YN CREU CON A ELWIR YN LEN EJECTA
MAE POB UN GRONYN A CHARREG YN DILYN LLWYBR GROM, SEF PARABOLA, OND MAE'R CON YN YMDDANGOS FEL EI FOD YN SYMUD AT ALLAN ODDI WRTH MAN Y FFRWYDRIAD
MAE PETH O'R EJECTA YN CREU CRATERI EILRADD
MAE WALIAU Y CRATER YN GALLU CYLCHLITHRO
PRIF NODWEDDION CRATER ARDRAWIAD
EJECTA PARHAOL
MAE'R WYNEB GWREIDDIOL GER Y CRATER WEDI EI ORCHUDDIO YN GYFANGWBL GAN EJECTA
YR EJECTA PELLAF ODDI WRTH Y CRATER GAFODD EI DAFLU ALLAN YN GYNTAF, A GYDA'R CYFLYMDER UCHAF
CRATERI EILRADD
MAE TALPAU O EJECTA YN GALLU CREU CRATERI LLAI, YN DILYN LLINELLAU YN PWYNTIO ODDI WRTH Y BRIF GRATER
EJECTA AMHARHAOL
NID YW DEFNYDD O'R CRATER YN GORCHUDDIO Y TIR I GYD
TERASAU
YN CAEL EU CREU LLE MAE WALIAU Y CRATER WEDI CYLCHLITHRO
YMYL Y CRATER
MAE HWN YN SEFYLL YN UWCH NA'R TIR GWREIDDIOL
COPA CANOLOG
MAE HWN YN CAEL EU GREU BLE MAE'R WYNEB YN ADLAMU. NID YW RHAIN YN CAEL EU CREU MEWN CRATERI BYCHAIN.
TAWDD ARDRAWIAD
YN BRESENOL OS OEDD GWRES UCHEL IAWN PAN GREUWYD Y CRATER
CRACIAU WEDI EU CREU YN YSTOD YR ARDRAWIAD. OS YW'R CRAMEN YN DENAU, GALL LAFA GYRRAEDD Y WYNEB DRWYDDYNT.
YR EJECTA AGOSAF AT YMYL Y CRATER CAFODD EI DAFLU ALLAN DDIWETHAF AC AR Y CYFLYMDER ISAF. RHAN O'R TIR GWREIDDIOL YW SYDD WEDI EI DROI BEN UCHAF I LAWR.
YCHYDIG IAWN O GRATERI ARDRAWIAD SYDD I'W GWELD AR Y DDAEAR. Y RHESWM YW FOD Y RHAN FWYAF OHONYNT WEDI EU DINISTRIO DRWY CAEL EU CLADDU, NEU GAN EFFAITHIAU ERYDIAD.
MAE'R SICR EI FOD WEDI EI DARO NIFER ANFERTH O WEITHIAU
MAE BRON POB CRATER AR FFURF CYLCH.
GAN EU POB WEDI EU CREU GAN FFRWYDRIADAU YN DIGWYDD MEWN UN MAN, NID YW CYFEIRIAD Y TAFLEGRYN YN CAEL EFFAITH.
MAE YCHYDIG IAWN O GRATERI A SIAP HIRGUL, A GREUWYD PAN OEDD GWRTHRYCH YN CYRRAEDD BRON YN PARALEL A'R WYNEB.
MAE CRATERI YN CAEL EU CREU AR BOB GRADDFA. MAE RHAI O ARDRAWIADAU DIGON MAWR I DDINISTRIO BYDOEDD!
CRATER 450 KM AR EI DRAWS
~1mm
DYMA GRATER OFNADWY O FYCHAN AR GRAIG O'R LLEUAD
CRATER ODYSSEUS AR TETHYS - UN O LEUADAU SADWRN
MAE TETHYS YN MESUR 1062 KM AR EI DRAWS
SIAP POWLEN SYDD GAN GRATERI BYCHAIN
1 km
MAE GAN GRATERI MWY EU MAINT LORIAU MWY GWASTAD
100 km
AR DIONE - UN O LEUADAU Y BLANED SADWRN - MAE CLOGWYN WEDI TORRI CRATER YN EI HANNER, YN RHOI TRAWSDORIAD PERFFAITH O'R CRATER I NI!
DWR WEDI EI REWI YW WYNEB DIONE I GYD!
CLOGWYN
COPA CANOLOG
gofota.cymru